Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Maesybont
# Maesybont
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA14 7SU

# Dyddiad yr arolygiad: Medi 2015

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/12/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Maesybont wedi'i lleoli ym mhentref Maesybont ger Gorslas, Llanelli ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.  Mae 29 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys tri phlentyn meithrin, ar y gofrestr, a chânt eu haddysgu mewn dau ddosbarth oed cymysg.  Mae tua 8.3% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Daw llawer o'r disgyblion i'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch.

Mae tua 13.6% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, ac nid oes yr un â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Ychydig o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg ac ychydig sy'n dod o gefndiroedd lleiafrif ethnig cymysg.

Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd yn y flwyddyn 2000.  Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Chwefror 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Maesybont yn 2015-2016 yw £4,964.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,382 a'r lleiafswm yw £3,111. Mae Ysgol Gynradd Maesybont yn yr 11eg safle o'r 101 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o fan isel iawn yn ieithyddol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Bod medrau rhifedd llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn
- Bod llawer o ddisgyblion yn deall beth sydd angen ei wneud i wella eu gwaith
- Bod llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwiliol yn bwrpasol yn eu gwaith thema
- Bod llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd
- Bod bron pob disgybl yn mwynhau yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n dda mewn gwersi
- Bod ganddi weithdrefnau effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- Bod ymwybyddiaeth rhan fwyaf y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn dda
- Bod disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais, gofalgar ac yn ymddwyn yn dda
- Bod yr athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn, ac yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n ennyn eu diddordeb yn effeithiol
- Bod safon yr addysgu yn gadarn dda ar draws yr ysgol

Fodd bynnag:

- Nid yw safonau llafar y disgyblion ar ran uchaf y Cyfnod Sylfaen yn ddigon cadarn
- Nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn ddigon cyson o fewn y dosbarthiadau na thu allan iddynt
- Nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon bwriadus i sicrhau bod gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, na maes llafur addysg grefyddol cytûn y sir, yn cael eu bodloni'n gyflawn

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol ddigonol oherwydd:

- Bod y pennaeth wedi llwyddo i greu cymuned ddysgu ofalgar a llwyddiannus
- Bod yr arweinyddiaeth wedi ei hadeiladu ar weledigaeth glir, gyda phawb yn cydweithio tuag at yr egwyddor o osod y disgybl yn y canol ac adnabod anghenion pob unigolyn
- Bod y pennaeth yn ysgogi cydweithio da iawn ym mysg staff yr ysgol

- Bod gweithdrefnau cytûn yn bodoli ar draws yr ysgol
- Bod ffocws cadarn ar sicrhau darpariaeth dda er mwyn codi safonau
- Bod staff yn mynd i'r afael yn briodol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol
- Bod arweinwyr wedi meithrin amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n effeithiol tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion

Fodd bynnag:

- Nid yw'r arweinyddiaeth yn gwneud defnydd priodol o'r ystod lawn o ddata perfformiad yn y broses hunanarfarnu
- Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn adnabod yr agweddau sydd angen eu gwella yn ddigon trylwyr i fod yn hollol effeithiol
- Nid yw cynllun gwella'r ysgol yn ffocysu digon ar safonau ac nid yw'r targedau sydd ynddo yn ddigon meintiol i alluogi'r llywodraethwyr i ddal yr ysgol i gyfrif
- Mae sefyllfa gyllidol a chyflwr yr adeiladau yn ofid

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llafar disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion yr holl ysgol o fewn a thu allan i'r dosbarth

A2 Cryfhau'r cynllunio tymor hir a chanolig er mwyn sicrhau cyflawniad pob elfen o'r cwricwlwm a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol dros gyfnod

A3 Miniogi'r weithdrefn hunanarfarnu gan ddefnyddio'r ystod lawn o ddata ac adnabod yn well y materion allweddol sydd angen eu gwella

A4 Sicrhau bod y cynllun datblygu'n ffocysu'n well ar godi safonau ac yn cynnwys targedau meintiol fel bod y llywodraethwyr yn medru dwyn yr ysgol i gyfrif yn fwy effeithiol

A5 Parhau i weithio gyda'r awdurdod lleol i leihau dyled yr ysgol a gwella cyflwr yr adeilad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau iaith llawer o'r disgyblion yn isel iawn. Fodd bynnag, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd priodol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl yn bwrpasol, er enghraifft wrth ddatrys problemau yn ymwneud â thema'r tymor a defnyddio rhaglen codio i greu amgylchfyd neu gêm. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog yn y Cyfnod Sylfaen bob amser yn cyflawni gystal ag y gallent.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau gwrando a deall llawer o'r disgyblion yn dda. Fodd bynnag, maent yn ddihyder i ymateb yn gywir ar lafar ac maent yn defnyddio gormod o Saesneg yn eu hymatebion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae hyder y rhan fwyaf wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn dda er bod tuedd ganddynt i ddefnyddio geiriau Saesneg. Ychydig sy'n siarad yn naturiol gyda'i gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y Saesneg, mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod eu dysgu'n ddeallus ac yn esbonio'u gwybodaeth a'u syniadau'n eglur. Gallant fynegi eu hunain yn effeithiol ac ymateb i siaradwyr yn gywir ac yn estynedig. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar eraill yn siarad, ac yn canolbwyntio'n dda yn y gwersi. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru darllen llyfrau, a'u gwaith eu hunain, yn y Gymraeg i safon sy'n unol â'u hoed a'u gallu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen ystod o destunau Cymraeg gan ynganu yn gywir a defnyddio goslef bwrpasol ar y cyfan. Mae rhan fwyaf yn gallu trafod yr hyn maent wedi ei ddarllen yn dda, gan gyfeirio at eu hoff gymeriadau a rhoi rhesymau tros hyn. Yn y Saesneg, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn gallu dyfalu ystyr geiriau trwy ddefnyddio cliwiau synhwyrol a defnyddio medrau llithr ddarllen a chip ddarllen yn effeithiol i ddarganfod gwybodaeth mewn testun. Maent yn hyderus wrth chwilio am wybodaeth berthnasol o'r we yn y ddwy iaith.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos datblygiad parhaus o ran eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf ohonynt ddefnyddio amrywiaeth o ffurfiau yn gywir i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol ac i wahanol bwrpasau. Maent yn dangos gafael briodol ar atalnodi sylfaenol, er enghraifft trwy ysgrifennu stori am forladron a hanes Barti Ddu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gallu defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg yn lled gywir at wahanol ddibenion. Mae enghreifftiau da yn cynnwys llythyr yn disgrifio ymweliad i'r orsaf dân, cerdyn post o Jamaica, bywgraffiad Shirley Bassey ac ailadrodd stori Llyn Llech Owain. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol gan ddefnyddio paragraffau ac atalnodi'n gywir. Mae gwaith y disgyblion yn dangos cynnydd da yn y Saesneg trwy gyfnod allweddol 2 gyda'r atalnodi, sillafu a'r gystrawen yn cyd-fynd â disgwyliadau oed y disgyblion. Mae llawer yn medru ysgrifennu'n estynedig i safon briodol yn drawsgwricwlaidd ac ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae paragraffu da a geirfa gyfoethog ac ymestynnol yn cael eu defnyddio i greu effaith yn llwyddiannus iawn.

Mae llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn ac yn eu defnyddio'n effeithiol mewn ystod o feysydd yn llwyddiannus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o ffeithiau mathemategol. Gallant greu graffiau bloc a bar a'u dehongli'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd real sy'n ymwneud â'r themâu cartrefi a môr-ladron. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gadarn. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfrifo yn gywir ar gyfer datrys problemau rhif. Datblygant eu medrau rhifedd a datrys problemau yn effeithiol mewn ystod o sefyllfaoedd real. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y gwnaethant gynllunio, prisio, gwneud a phrynu bwyd ar gyfer dathliad ar gyfer y gymuned yn yr ysgol a chyfrifo'r elw. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud defnydd pwrpasol o ddata ar draws y cwricwlwm trwy waith thema, er enghraifft wrth ddadansoddi nifer y traciau ar recordiau'r Beatles a chyflwyno hyn ar ffurf graffiau gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadur bwrpasol.

Mae nifer y disgyblion a asesir bob blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn fach iawn. Mae hyn yn golygu nad yw cymariaethau ag ysgolion eraill yn ddibynadwy.

Mae tueddiadau ar y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol, dros y pedair blynedd diwethaf yn y Cyfnod Sylfaen, yn dangos amrywiaeth sylweddol rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, ar y deilliant uwch na'r disgwyl, mae perfformiad yn gyson yn y 25% isaf.

Yn ystod yr un cyfnod, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn gyffredinol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar y lefel uwch na'r disgwyl yn fwy amrywiol, ac, er bod cynnydd yn ddiweddar, mae wedi bod yn gyson is na'r cyfartaledd.

Am fod nifer y disgyblion mor fach, nid yw cymariaethau perfformiad bechgyn a merched na disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn ddibynadwy.

Mae bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau personol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n ddiogel. Maent yn gwrtais a chroesawgar ac yn ofalgar iawn o'i gilydd. Mae gofal y disgyblion hŷn o'r disgyblion iau wrth gyrraedd yr ysgol ac yn ystod cyfnodau egwyl yn un o gryfderau amlwg yr ysgol. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn yn y gwersi ac ar yr iard. Mae'r rhan fwyaf yn dangos agwedd gadarnhaol iawn at ddysgu, yn cyrraedd yn brydlon ac yn cydweithio'n hwylus gyda'i gilydd fesul pâr ac mewn grwpiau. Mae llawer o'r disgyblion yn ymwybodol o'u targedau personol ac yn gwybod beth sydd angen ei wneud i wella. Mae eu gallu i weithio'n annibynnol ac i gadw ar dasg yn gryfder.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac yn gallu esbonio effaith hyn ac ymarfer corff ar eu hiechyd yn dda.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor lles yn teimlo bod eu llais yn bwysig a bod oedolion yn gwrando arnynt, er enghraifft, darparwyd sied lythrennedd ar yr iard a rhoddir cyfle i ddisgyblion rannu eu pryderon mewn blwch pryderon. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gwasanaethau a digwyddiadau eraill yn y gymuned leol, ac yn elwa o drefnu digwyddiadau eu hunain o fewn yr ysgol, er enghraifft te parti môr ladron i godi arian i wneud iard yr ysgol yn fwy deniadol. Mae hyn, ynghyd â'u mewnbwn i bolisïau'r ysgol, yn rhoi teimlad cryf o berthyn i'r gymuned leol a'r gymuned ehangach, yn eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cytunedig gyda'r awdurdod lleol mewn perthynas â phresenoldeb carfan benodol o ddisgyblion. O ganlyniad, nid yw data presenoldeb yr ysgol yn ddibynadwy, yn enwedig gan fod cyn lleied o ddisgyblion ar y gofrestr. Fodd bynnag, mae cyfradd presenoldeb y disgyblion wedi bod yn gyson is na'r canolrif dros y tair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau dysgu cyffrous y tu mewn a thu allan i'r ysgol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r athrawon yn teilwra eu cynlluniau yn ôl diddordeb y disgyblion ac yn aml yn dilyn thema ysgol gyfan fel 'Môr-ladron' er mwyn cyfoethogi'r profiadau i'r holl ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon trylwyr i sicrhau cyflawniad cwricwlaidd dros gyfnod. Oherwydd hyn, nid ydynt yn sicrhau bod yr ysgol yn cwrdd yn llawn â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol na'r maes llafur Addysg Grefyddol.

Ar y cyfan, mae staff yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn dda erbyn iddynt adael yr ysgol. Mae cyfleoedd cynnar ar gyfer disgyblion sy'n methu gwneud cynnydd disgwyliedig mewn llythrennedd a rhifedd i gael cefnogaeth, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd canlyniadau disgwyliedig erbyn diwedd Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6. Mae'r ysgol yn gyffredinol wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu'r Llythrennedd a Rhifedd, ac mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol ac ysgogol i'r disgyblion ymarfer eu medrau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn amlwg iawn yng nghynlluniau thematig yr ysgol a rhoddir pob ystyriaeth i gynnwys cymeriadau neu straeon Cymreig, fel Barti Ddu, yn y gweithgareddau. Maent yn llwyddo i ddod â chwedl o'r ardal leol yn fyw a pherthnasol gan ddefnyddio artist lleol wrth astudio stori Llyn Llech Owain. Mae hyn yn tanio dychymyg y disgyblion yn dda ac yn arwain at waith creadigol ac ysgrifenedig safonol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang yn dda trwy weithgareddau Masnach Deg a thrwy astudio bywyd pobl mewn gwledydd eraill fel Jamaica. Mae'r ysgol yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd ailgylchu ac arbed dŵr ac ynni. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu drwy gynnig gwasanaeth i'r gymuned i ailgylchu batris.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu yn gadarn dda drwy’r ysgol. Mae’r athrawon yn paratoi cynlluniau byr dymor yn effeithiol ac yn cynnwys ystod bwrpasol o fedrau i’w datblygu mewn gwersi. Mae’r rhain yn cynnwys medrau rhifedd, llythrennedd, meddwl a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae'r cynlluniau hyn wedi eu gwahaniaethu’n llwyddiannus yn ôl gallu neu oed y disgyblion yn y dosbarth. Enghraifft dda o hyn yng nghyfnod allweddol 2 yw astudio barddoniaeth am wrach fel symbyliad i waith ar odl i Flwyddyn 3 a llunio dyddiadur o safbwynt y wrach i Flwyddyn 6.

Mae’r cydweithio effeithiol sy’n bodoli rhwng y staff, ynghyd â’u hadnabyddiaeth o bob disgybl, yn un o gryfderau’r ysgol. Defnyddiant y wybodaeth hon yn bwrpasol i deilwra’r dysgu er mwyn bodloni anghenion pob disgybl. O ganlyniad, mae disgyblion bron yn ddieithriad yn gwneud cynnydd da mewn gwersi ac yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol erbyn iddynt adael yr ysgol. Trwy ddefnyddio cwestiynau penagored yn effeithiol, mae’r staff yn datblygu medrau meddwl disgyblion yn dda ac yn sicrhau eu bod yn deall y gwaith. Mae’r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar waith blaenorol ac mae hyn yn cyfrannu at y cynnydd mae bron pob un yn ei wneud mewn gwersi. Enghraifft dda o hyn oedd adeiladu ar ddealltwriaeth o rifau o dan sero wrth fesur a nodi tymheredd ar thermomedr.

Mae’r staff yn fodelau iaith gadarn ac yn gweithio’n gydwybodol i geisio trochi dysgwyr yn y Gymraeg ac maent yn llwyddo i gael y rhan fwyaf i ddeall cyfarwyddiadau yn fuan. Fodd bynnag, nid yw’r disgwyliadau o ran ymateb llafar disgyblion yn y Gymraeg yn gyson yn ddigon heriol. Mae tuedd i beidio â sicrhau bod disgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn naturiol mewn trafodaethau ymysg ei gilydd mewn gwersi, nac ar adegau eraill y tu allan i’r dosbarth. O ganlyniad, nid yw pob disgybl yn datblygu medrau llafar ieithyddol yn ddigon cadarn a buan i’w galluogi i gyrraedd y deilliannau uwch.

Mae’r athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu ar gyfer dysgu er mwyn cynnig cyfleoedd addas i’r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn rheolaidd. Enghraifft o hyn yw’r defnydd o oleuadau traffig yn y Cyfnod Sylfaen a meini prawf llwyddiant, hunanasesu ac asesu cyfoedion yng nghyfnod allweddol 2. Mae pob athro yn cynnig adborth llafar defnyddiol ac adeiladol yn y gwersi ac yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson ac yn ofalus gan nodi ‘dwy seren a dymuniad’. Fodd bynnag, ychydig o enghreifftiau sydd o’r disgyblion yn cael cyfle i ymateb i sylwadau'r athro yn ysgrifenedig.

Mae’r ysgol yn defnyddio data profion ac asesiadau yn rheolaidd ac effeithiol ar gyfer asesu a monitro cynnydd y disgyblion a darparu rhaglenni ymyrraeth wrpasol ar eu cyfer. Mae proffiliau disgyblion ac esiamplau o gyd-safoni darnau o waith fel clwstwr ac o fewn yr ysgol yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn a chywir.

Mae staff yn llunio adroddiadau defnyddiol yn flynyddol i rieni ar gynnydd y disgyblion. Mae hyn yn rhoi darlun clir i rieni o’r hyn mae’r disgyblion yn gallu ei wneud a’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol. Mae staff yn darparu dŵr yn y neuadd a chynghori ar gynnwys bocsys bwyd iach. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o fwyta ac yfed yn iach.

Mae'r staff yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Trwy ddarparu cyfle iddynt fod yn rhan o lunio'r polisi gwrth-fwlio, mae staff yn sicrhau bod aelodau'r cyngor ysgol yn ymwybodol o'r gweithdrefnau effeithiol sydd ar waith ac yn rhannu'r wybodaeth honno gyda gweddill yr ysgol. Mae staff yn parchu syniad aelodau'r cyngor lles o gadw bocs pryderon yn ganolog fel bod pob disgybl yn gwybod sut i rannu eu gofidiau os oes rhywbeth yn eu poeni.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o arbenigedd asiantaethau allanol er mwyn cefnogi disgyblion, er enghraifft trwy ddefnyddio arbenigwyr fel y plismon lleol neu nyrs yr ysgol i'w addysgu am iechyd corfforol, cymorth cyntaf a diogelwch ar y we. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda swyddog lles yr awdurdod lleol i wella presenoldeb yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Oherwydd mai carfan fechan o ddisgyblion sydd ym mhob dosbarth, caiff anghenion y disgyblion hyn eu hadnabod yn gynnar ac mae cyswllt agos gyda'r rheini yn cryfhau'r ddarpariaeth ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn targedau yn eu cynlluniau addysg unigol.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae ethos ac awyrgylch cartrefol a chynhwysol o fewn yr ysgol ac mae partneriaeth arbennig yn bodoli rhwng y disgyblion, y staff, y rhieni a'r gymuned leol. Mae'r disgyblion yn cael cyfle cyfartal o fewn holl ddarpariaeth yr ysgol ac mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn effeithiol.

Mae digon o adnoddau dysgu o fewn a thu allan i'r ysgol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn cyfoethogi'r addysgu. O dan amgylchiadau anodd iawn, mae'r staff yn gwneud eu gorau i sicrhau amgylchfyd deniadol ac ysgogol o fewn yr ysgol. Gwneir defnydd da iawn o'r adeilad a'r adnoddau pwrpasol y tu allan, fel y llwyfan perfformio a'r sied llythrennedd. Caiff yr adeilad a'r toiledau eu cynnal yn lan a thaclus.

Fodd bynnag, mae cyflwr yr adeilad y tu allan yn galw am waith cynnal a chadw sylweddol. Mae'r ffenestri wedi pydru a heb eu paentio ers blynyddoedd; mae'r cafnau yn gollwng ac yn peri lleithder enbyd o fewn yr adeilad. Mae dŵr yn crynhoi yn gyson yn y seler ac yn ychwanegu at y lleithder.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth, ynghyd â'r staff, wedi llwyddo i greu cymuned ddysgu ofalgar, gynhwysol a llwyddiannus sy'n adlewyrchu arwyddair yr ysgol - ysgol fach â chalon fawr. Mae yma weledigaeth gytûn a chydweithio hwylus er lles y disgyblion. Llwyddir i gyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr, a thrwy hyn, sicrhau cyfeiriad clir a chadarn i'r ysgol. Mae ffocws pendant ar geisio sicrhau darpariaeth sy'n hybu dysgu trwy roi'r plentyn yn y canol ac adnabod anghenion pob unigolyn. Mae'r ysgol yn gwneud y defnydd gorau o brofiad y staff, ac mae eu cyfrifoldebau addysgu wedi eu cytuno a'u rhannu'n bwrpasol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu effeithiol. Mae tystiolaeth bod arweiniad y pennaeth yn arwain at welliant, er enghraifft yn y defnydd o asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol, a deilliannau disgyblion mwy abl yn y Saesneg a mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Yn y cyfarfodydd staff ffurfiol, mae cyfleoedd pwrpasol i rannu gwybodaeth am arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau gyda'i gilydd a thrafod adroddiadau'r awdurdod lleol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n briodol ar sicrhau darpariaeth mewn llythrennedd a rhifedd, a thrwy hynny, codi safonau gwaith disgyblion a rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. O ganlyniad, mae deilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg o ran cyrraedd y deilliannau a'r lefelau disgwyliedig.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn derbyn adroddiadau yn rheolaidd ar safonau, darpariaeth ac ar weithredu'r cynllun gwella ysgol gan y pennaeth a'r awdurdod lleol. Mae dealltwriaeth aelodau'r corff o safonau ar lawr y dosbarth yn cryfhau trwy ymweliadau monitro. Fodd bynnag, maent yn rhy ddibynnol ar wybodaeth gan y pennaeth a'r awdurdod lleol, ac nid yw eu rôl fel cyfeillion beirniadol wedi gwreiddio digon i'w galluogi i ddal yr ysgol i gyfrif.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol raglen briodol ar gyfer monitro ac arfarnu ystod o agweddau o'i gwaith dros gyfnod penodol o amser. Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn gwneud defnydd priodol o dystiolaeth uniongyrchol fel arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau, trafod gwaith gyda'r disgyblion a holi barn disgyblion a rhieni. Mae'r ysgol hefyd yn dadansoddi a defnyddio data asesiadau diwedd cyfnod allweddol athrawon yn gymwys ac mae hyn yn hybu dealltwriaeth y staff o berfformiad yr ysgol o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio data profion darllen cenedlaethol yn ddigon pwrpasol i adnabod materion sydd angen eu hadnabod yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae'r adroddiadau monitro pynciol yn seiliedig ar y pynciau craidd yn unig, maent yn canolbwyntio yn ormodol ar ddarpariaeth ar draul safonau ac nid ydynt yn ddigon arfarnol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn nodi cryfderau'r ysgol yn dda. Fodd bynnag, nid yw'n adnabod yn ddigon manwl yr holl agweddau sydd angen eu gwella, yn enwedig mewn perthynas â chyflawniadau llafar Cymraeg disgyblion a gwirio bod

cynlluniau tymor hir a chanolig yr ysgol yn briodol. Mae’r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ac yn brin o ran effaith y gweithgaredd a nodir fel tystiolaeth ar y safonau neu’r ddarpariaeth.

Er bod cysylltiad priodol yn bodoli rhwng deilliannau’r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau’r cynllun gwella ysgol, nid yw bob amser yn cynnwys y blaenoriaethau pwysicaf. Fodd bynnag, mae’r cynllun gwella presennol yn dangos yn glir pam y mae maes wedi ei gynnwys ynddo ac mae’n rhoi sylw teilwng i gyllid a chyfrifoldebau staff, yn ogystal â therfynau amser priodol. Mae arweinwyr yn adolygu’r cynllun datblygu blaenorol yn bwrpasol ac mae hyn yn nodi’r cynnydd a wnaed, yn arbennig o ran y defnydd mwy cyson o asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, prin iawn yw’r targedau meintiol sydd yn y ddogfen ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd i’r llywodraethwyr ddwyn yr ysgol i gyfrif am ei safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae’r rhieni yn gefnogol iawn i bob agwedd o’r ysgol ac yn cael eu hannog i rannu eu profiadau yn rheolaidd gyda’r disgyblion. Mae cymdeithas rieni’r ysgol yn trefnu gweithgareddau llwyddiannus sy’n codi swm sylweddol o arian yn flynyddol ar gyfer cyfoethogi profiadau’r disgyblion a’r ddarpariaeth ar eu cyfer. Enghreifftiau da o hyn yw talu am wersi offerynnol i holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2, a phrynu gliniaduron a chynllun darllen Cymraeg i’r ysgol.

Mae cysylltiadau pwrpasol yn bodoli rhwng yr ysgol a meithrinfeydd y dalgylch. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym wrth gychwyn yn y Cyfnod Sylfaen. Mae’r ysgol yn gweithio’n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a thriawd o ysgolion tebyg ar brosiect sy’n arwain at godi safonau’r disgyblion mwy abl yn benodol. Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd lleol, sydd nid yn unig yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo’n esmwyth o'r sector cynradd i'r uwchradd ond hefyd yn cydweithio i godi safonau gwyddoniaeth a TGCh. Mae gwaith addas ar safoni a chymedroli asesiadau athrawon yn digwydd yn y pynciau craidd. Mae hyn yn cryfhau dealltwriaeth yr athrawon o ofynion asesu cywir.

Mae’r ysgol yn rhan ganolog o’r gymuned leol ac mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion ac yn dyfnhau eu hymwybyddiaeth o berthyn i’w cymuned. Mae’r disgyblion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol fel gwasanaethau a chyngherddau a daw’r gymuned i’r ysgol i ailgylchu deunyddiau, i gefnogi gweithgareddau cyhoeddus ac i rannu profiadau gyda’r disgyblion.

Mae’r bartneriaeth agos sy’n bodoli rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol yr awdurdod yn sicrhau ymateb priodol i gefnogi disgyblion bregus pan fo’r angen. Mae’r disgyblion hefyd yn elwa o ymweliadau plismon lleol, nyrs yr ysgol a’r frigâd dân sy’n codi ymwybyddiaeth y disgyblion o weithwyr yn y gymuned leol a sut i gadw’n ddiogel.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae’r ysgol wedi ei staffio’n briodol gan athrawon profiadol iawn.  Maent yn derbyn ystod o hyfforddiant effeithiol er mwyn datblygu eu harbenigedd ymhellach ac i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion.

Gwna athrawon ddefnydd pwrpasol o’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac o ganlyniad i’r broses rheoli perfformiad, mae hyfforddiant yn cael ei gynllunio mewn perthynas â blaenoriaethau’r ysgol ac anghenion unigolion yn synhwyrol.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o’r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn cynnal disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim drwy ddefnyddio cynorthwyydd i’w cefnogi.  Mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae rhwydwaith o arfer broffesiynol yn datblygu'n briodol gyda ffocws clir ar wella safonau a darpariaeth; er enghraifft, codi canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch mewn mathemateg a Chymraeg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae’r corff llywodraethol a’r pennaeth yn wynebu sefyllfa eithriadol o heriol o ran ceisio rheoli cyllid yr ysgol.  Oherwydd y nifer bychan o ddisgyblion a’r angen am ddau athro, nid oes digon o arian yn dod i mewn i gynnal yr ysgol. Er bod y pennaeth wedi lleihau ei dyddiau gwaith am gyfnod i geisio lleddfu’r sefyllfa, a bod y corff wedi torri pob gwariant yn ôl i’r eithaf, mae’r ddyled yn parhau i gynyddu.  Mae’r corff yn paratoi adroddiadau blynyddol i’r awdurdod lleol ac yn ceisio cydweithio i leihau’r ddyled ond nid oes cynllun penodol ar gyfer gwneud hyn.  O ystyried hyn, ynghyd â’r safonau, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon.  Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 15 | 15<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 15 | 14<br>93% | 1<br>7% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 14 | 14<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 15 | 15<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 15 | 15<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 15 | 15<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 15 | 15<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 15 | 15<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 15 | 15<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 5 | 5<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 13 | 13<br>100%<br>77% | 0<br>0%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 14 | 14<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 13 | 11<br>85%<br>64% | 2<br>15%<br>33% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| My child likes this school. | 13 | 12<br>92%<br>73% | 1<br>8%<br>25% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 13 | 12<br>92%<br>73% | 1<br>8%<br>26% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| My child is making good progress at school. | 13 | 11<br>85%<br>63% | 2<br>15%<br>34% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| Pupils behave well in school. | 13 | 12<br>92%<br>48% | 1<br>8%<br>47% | 0<br>0%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| Teaching is good. | 13 | 11<br>85%<br>62% | 2<br>15%<br>35% | 0<br>0%<br>2% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 13 | 12<br>92%<br>65% | 1<br>8%<br>33% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 9 | 5<br>56%<br>50% | 3<br>33%<br>42% | 1<br>11%<br>6% | 0<br>0%<br>2% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 12<br>92%<br>61% | 0<br>0%<br>34% | 1<br>8%<br>4% | 0<br>0%<br>1% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 10<br>77% | 2<br>15% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 12 | 11<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 13 | 10<br>77% | 3<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 12<br>92% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 12<br>92% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 12 | 11<br>92% | 0<br>0% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 8 | 8<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 10<br>77% | 2<br>15% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 13 | 11<br>85% | 1<br>8% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Ellis Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| Mari Phillips | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jessica Lewis | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.